

# Mabwysiadu

Canolbarth a Gorllewin Cymru

# Adoption

Mid & West Wales



Arweiniad i Fabwysiadu  
Trawswladol



## **Beth yw mabwysiadu trawswladol?**

Mabwysiadu trawswladol yw pan fydd rhywun o un wlad yn mabwysiadu plentyn o wlad arall. Mae'r plentyn yn symud yn gyfreithlon ac yn barhaol o'u teulu genedigol at y teulu sy'n eu mabwysiadu.

Rhoddir caniatâd i fwrw ymlaen â mabwysiadu trawswladol yn yr amgylchiadau canlynol:

- Nid yw'n bosibl i'r plentyn dderbyn gofal addas yn ei wlad neu ei gwlad ei hun;
- Mabwysiadu fyddai'r peth gorau er lles y plentyn a'r ateb gorau i ddiwallu hawliau sylfaenol y plentyn o dan gyfraith ryngwladol; ac
- Mae'r asiantaeth fabwysiadu wedi asesu bod y mabwysiadwr yn gymwys ac yn addas i fabwysiadu o dramor;
- Ni ddylai mabwysiadu trawswladol arwain at fantais ariannol amhriodol i'r bobl dan sylw.

Mae'r Deyrnas Unedig yn rhan o gytundeb o'r enw Confensiwn yr Hâg sy'n bartneriaeth rhwng nifer o wledydd i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag eu herwgipio a'u masnachu. Mae'r prosesau mabwysiadu trawswladol, gan gynnwys asesu gan yr asiantaeth fabwysiadu ddomestig a'r prosesau rhwng y gwledydd, yn dod o dan y confensiwn hwn. Mae yna hefyd nifer o wledydd y cytunwyd eu bod yn wledydd ddynodedig ar gyfer mabwysiadu. Mae hyn yn golygu y bydd y Deyrnas Unedig yn cydnabod gorchymyn mabwysiadu a wnaed gan wlad ar y rhestr ddynodedig hon.

Os byddwch yn mabwysiadu plentyn o wlad heb fod ar y rhestr ddynodedig ac nad yw'n dod o dan Gonfensiwn yr Hâg, ni fydd y gorchymyn mabwysiadu gan y wlad honno'n cael ei gydnabod a bydd rhaid i chi fabwysiadu yn llysoedd y Deyrnas Unedig.

### **Sut i wneud cais am fabwysiadu trawswladol**

Os dymunwch fabwysiadu plentyn o dramor, rhaid ichi gysylltu ag asiantaeth fabwysiadu gymeradwy i gael eich asesu fel Mabwysiadwr. Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys yr asiantaethau mabwysiadu ym Mhowys, Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Gallwch gysylltu a gwneud cais i'r gwasanaeth am gael asesiad fel Mabwysiadwr.

Cysylltwch â'r gwasanaeth yn:

Gwasanaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru  
Neuadd Brycheiniog  
Cambrian Way  
Aberhonddu  
LD3 7HR  
Ffôn: 01874 614030  
E-bost: [adoption@powys.gov.uk](mailto:adoption@powys.gov.uk)

Gwasanaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru  
Adeilad 1, Parc Dewi Sant  
Heol Ffynnon Job  
Caerfyrddin  
SA31 3HB  
Ffôn: 01267 246970

Gellir ond ystyried mabwysiadu traws-wladol fel ffordd o ddod o hyd i deulu i blentyn os nad yw'n bosib iddo ef neu hi dderbyn gofal yn ei wlad ei hun. Bydd yr asiantaeth yn gofyn am gyngor, gan gynnwys gan Lywodraeth Cymru, i weld a fodlonir y maen prawf hwn pan wneir y cais.

Os yw hyn yn golygu mabwysiadu plentyn o wlad arall, dylech ddewis gwlad y mae gennych gysylltiadau â hi neu wybodaeth am ei diwylliant, ei hanes a'i hiaith. Mae'n bwysig hefyd fod y plentyn yn sefydlu ac yn cynnal cysylltiadau â'i wlad/gwlad enedigol a bod y rhieni sy'n mabwysiadu yn ystyried materion yn ymwneud â hunaniaeth a gwahaniaethu posibl yn y dyfodol.

Bydd yr asiantaeth yn dilyn rhagofalon a safonau sy'n cyfateb i'r rhai sy'n berthnasol wrth fabwysiadu yn y Deyrnas Unedig, er mwyn diogelu lles y plentyn. Dylech ddarllen arweiniad yr asiantaeth "Gwybodaeth i bobl sydd â diddordeb mewn mabwysiadu" am fanylion am y broses a'r meini prawf i bobl sydd am fabwysiadu.

Codir ffi ar unrhyw un sy'n gwneud cais i fabwysiadu'n draws-wladol i dalu costau'r asiantaeth am asesu. Cysylltwch â'r asiantaeth fabwysiadu i holi beth yw'r ffi bresennol.

### **Ar ôl Asesu**

Bydd copi o'ch adroddiad asesu a phapurau cysylltiedig yn cael eu hanfon at Lywodraeth Cymru ar ôl eu cwblhau. Yna byddant yn cael eu hanfon ymlaen at yr Adran Addysg (DfE). Hon yw'r adran fydd yn rhoi Tystysgrif Cymhwysedd, sy'n cadarnhau i'r wlad dramor eich bod yn gymwys i fabwysiadu.

Mae mabwysiadu traws-wladol yn gymhleth a gallai'r rheolau sy'n berthnasol iddo newid ar unrhyw adeg. Mae gan wefan y DfE ([www.gov.uk/intercountryadoptions](http://www.gov.uk/intercountryadoptions)) lwyth o wybodaeth am fabwysiadu traws-wladol, gan gynnwys arweinyfrau penodol sy'n berthnasol i nifer o wledydd. Hefyd, mae gan Lywodraeth Cymru arweinyfr manwl ar fabwysiadu traws-wladol ([www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk)).

Bydd y DfE yn anfon eich Tystysgrif Cymhwysedd a phapurau cysylltiedig at yr Awdurdod Canolog ar gyfer y wlad a ddewiswch, drwy *courier*. Efallai bydd angen i'ch papurau fynd gerbron cyrff eraill, fel llysgenhadaeth y wlad, yn gyntaf.

Bydd eich cais i fabwysiadu yna'n cael ei brosesu gan yr Awdurdod Canolog yn y wlad dramor honno. Os bydd eich cais yn cael ei gymeradwyo a chi'n cael eich clustnodi'n gydweddiad addas i blentyn, bydd angen i chi ymweld â'r plentyn fel rhan o'r broses gydweddu.

I ddod â'r plentyn yn ôl i'r Deyrnas Unedig, bydd angen i chi wneud cais am ganiatâd mynediad gyda'r Swyddog Caniatáu Mynediad yn y Llysgenhadaeth/Consyliaeth sydd agosaf at gartref y plentyn. Os yw'r plentyn o wlad heb fod ar y rhestr ddynodedig ac nad yw'n dod o dan Gonfensiwn yr Hâg, bydd dal angen i'r Swyddog Caniatáu Mynediad ystyried a yw'r plentyn yn cael dod i mewn i'r wlad.

## Cofrestru'r Mabwysiadu

I fabwysiadu o wlad sydd ar y rhestr ac sy'n dod o dan Gonfensiwn yr Hâg, bydd hefyd angen i chi gofrestru'r mabwysiadu gyda'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol er mwyn i'r mabwysiadu gael ei gydnabod o dan gyfraith y Deyrnas Unedig. Fel hyn ni fydd angen i chi ail-fabwysiadu drwy lysoedd y Deyrnas Unedig.

Gallwch gysylltu â'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol yn:

Adoptions Section  
Room C202  
General Register Office  
Trafalgar Road  
Southport  
PR8 2HH

Ffôn: 0300 123 1837

E-bost: [adoptions@gro.gsi.gov.uk](mailto:adoptions@gro.gsi.gov.uk)

Cysylltiadau defnyddiol eraill:

### **Department for Education (DfE)**

#### Intercountry adoption coursework team

Ground Floor Area D, Mowden Hall  
Staindrop Road  
Darlington  
Durham DL3 9BG  
Ffôn: 0370 000 2288  
E-bost: [ica.darlington@education.gsi.gov.uk](mailto:ica.darlington@education.gsi.gov.uk)

### **British Association for Adoption & Fostering (BAAF)**

7, Cleve House,  
Lambourne Crescent,  
Llanisien,  
Caerdydd CF14 5GP  
Ffôn: 02920 731155  
E-bost: [cymru@baaf.of.uk](mailto:cymru@baaf.of.uk)